# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 204

---

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

(60 munud)

**NDM7039** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2019'

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2019.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol

(60 munud)

**NDM7038** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei Ymchwiliad i Berthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd yn y dyfodol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Chwefror 2019.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 24 Ebrill 2019.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Hawliau Gweithwyr

(30 munud)

**NDM7034** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd Diwrnod Rhyngwladol y Gweithwyr a rôl undebau llafur wrth sicrhau hawliau gweithwyr yng Nghymru.

2. Yn nodi bod Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU o ran lefelau cyflog teg, gyda llawer o bobl yng Nghymru ar gyflogau sydd 30 y cant yn is na gweddill poblogaeth y DU.

3. Yn credu y dylid diweddaru'r ddeddfwriaeth i:

a) cyflawni 'Gwaith Teg' gan ddefnyddio dulliau polisi ac ariannu a chynyddu cwmpas cydfargeinio;

b) amddiffyn hawliau gweithwyr drwy ddulliau gorfodi mwy effeithiol; ac

c) sefydlu partneriaeth gymdeithasol a chydfargeinio yng ngwead bywyd gwaith Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd y defnydd o gontractau dim oriau ym mhob un o wasanaethau datganoledig cyhoeddus Cymru a chadwyni cyflenwi cysylltiedig.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys ymrwymiad i gyflwyno deddf partneriaeth gymdeithasol ac amserlen sy'n gysylltiedig â rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth bresennol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth ar ôl Pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cymeradwyo gwaith pob Llywodraeth Cymru ers 1999 i ddatblygu strwythurau partneriaeth gymdeithasol effeithiol gydag undebau llafur a busnesau Cymru.

Yn nodi bod y dull gweithredu hwn wedi helpu i sicrhau hawliau gwirioneddol i weithwyr Cymru drwy Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) a'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol sydd wedi gwyrdroi deddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Yn croesawu'r camau a ddatblygwyd drwy bartneriaeth gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i ddileu contractau dim oriau ecsbloetiol yng Nghymru a'r gwaith a wnaed drwy'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn genedl Gwaith Teg.

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a'i chyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau wrth i ni ymadael â'r UE ei bod yn ymrwymo i safonau deinamig sy'n rhwymo mewn cyfraith ar gyfer diogelu a gorfodi gwaith teg ar draws y DU.

Deddf yr Undebau Llafur (Cymru)

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol

Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 4.

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori ar ddatblygu deddf partneriaethau cymdeithasol.

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiogelu hawliau gweithwyr ar ôl Brexit.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Newid Hinsawdd

(30 munud)

**NDM7036 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi rhybudd llym gan gymuned wyddonol y byd nad oes dim ond 12 mlynedd ar ôl i atal 1.5 gradd o gynhesu.

2. Yn nodi ymhellach fod cynhesu tu hwnt i 1.5 gradd yn cynrychioli bygythiad i ddyfodol dynoliaeth, a bod cynhesu cyfyngedig i'r lefel honno, hyd yn oed, yn peri difrod i fywoliaeth pobl ddirifedi ar draws y byd.

3. Yn cydnabod bod ymateb byd-eang brys yn angenrheidiol ar unwaith.

4. Yn croesawu'r ffaith bod atebion i'r argyfwng yn yr hinsawdd ar gael yn eang gan gynnwys technoleg adnewyddadwy, opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ac adeiladau di-garbon.

5. Yn cefnogi penderfyniadau cynghorau sir, tref a chymuned ar draws Cymru i basio cynigion yn datgan argyfwng o ran yr hinsawdd a phennu targedau o sero ar gyfer allyriadau carbon yn eu hardaloedd lleol.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan argyfwng o ran yr hinsawdd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwyntiau 5 a 6 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu'r rôl arweiniol y mae'r DU wedi'i chwarae wrth weithio tuag at fargen fyd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy Gytundeb Paris ac yn nodi bod y DU, ers 1990, wedi torri allyriadau fwy na 40 y cant tra'n tyfu'r economiy gan fwy na dwy ran o dair, sef y perfformiad gorau fesul person nag unrhyw genedl G7 arall.

Yn gresynu mai dim ond 19 y cant y mae allyriadau yng Nghymru wedi lleihau yn ystod y cyfnod rhwng 1990 a 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth y DU i sicrhau y cyrhaeddir targedau newydd o ran allyriadau carbon sy'n gyfreithiol orfodol wrth symud ymlaen yng Nghymru.

Cytundeb Paris (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am:

a) ddwyn ymlaen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i sbarduno'r gweithredu ar fyrder ar y newid yn yr hinsawdd;

b) ymrwymo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fod yn ddi-garbon erbyn 2030 ac i bob adeilad y sector cyhoeddus ddefnyddio ynni adnewyddadwy yn gyfan-gwbl erbyn 2020 neu cyn gynted â bod modd gwneud hynny o ran contractau; a

c) edrych ar phob opsiwn ar gyfer datgarboneiddio economi Cymru drwy weithio gyda bob sector a chymuned, gan dynnu ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7035** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Tyngu Llw i'r Bobl - Newid y llw a gaiff ei dyngu gan Aelodau'r Cynulliad i addo teyrngarwch i'r bobl.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Mai 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24/04/2019 i'w hateb ar 01/05/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Addysg

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**1** OAQ53770

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safonau addysg yn ysgolion Cymru?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**2** OAQ53777

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y canllawiau a roddir i awdurdodau addysg lleol ynghylch sicrhau bod digon o amser yn y diwrnod ysgol i ddiwallu anghenion iechyd a lles disgyblion?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**3** OAQ53779

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi disgyblion sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain mewn ysgolion?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**4** OAQ53776

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella hawliau plant i gael addysg am rywioldeb a chydberthynas ym mhob ysgol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**5** OAQ53782

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o rai ysgolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cau amser cinio dydd Gwener?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**6** OAQ53785

**(e)**

Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod ysgolion yn cael eu hariannu'n ddigonol?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**7** OAQ53774

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadw myfyrwyr yng Ngogledd Cymru ar ôl cwblhau addysg bellach?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**8** OAQ53761

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y system addysg yn darparu'r sgiliau sy'n ofynnol i gefnogi economi Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**9** OAQ53772

**(e)**

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y caiff athrawon cyflenwi eu contractio yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**10** OAQ53764

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog pobl i fanteisio ar hyfforddiant anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer athrawon?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**11** OAQ53775

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn egluro pwy sy'n gyfrifol am fonitro canllawiau Blas am Oes mewn perthynas â phrydau ysgol?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**12** OAQ53758

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Bagloriaeth Cymru?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

**1** OAQ53765

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at feddygon teulu ym Mlaenau Gwent?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**2** OAQ53783

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni sgrinio ar gyfer canser yng Nghymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**3** OAQ53773

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau meddygon teulu yng Ngogledd Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**4** OAQ53771

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ysbytai ar gyfer cleifion yng ngogledd Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**5** OAQ53744

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**6** OAQ53756

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal iechyd trawsffiniol yng ngogledd Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**7** OAQ53762

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau rheoli poen ar gyfer y rhai sy'n dioddef o gyflyrau poen cronig yng nghanolbarth Cymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**8** OAQ53755

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer yr achlysuron y mae ambiwlansys wedi gorfod aros am fwy na 10 munud mewn ysbytai yng Ngorllewin De Cymru cyn gallu rhyddhau eu cleifion?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

9 OAQ53748

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal sylfaenol yn Ninas a Sir Abertawe?

**David Rees** *Aberafan*

10 OAQ53787

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella amseroedd aros ysbytai?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

11 OAQ53784

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OAQ53767

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch materion yn ymwneud â chyllid trawsffiniol yn dilyn penderfyniad Ysbyty Iarlles Caer i wrthod atgyfeiriiadau dewisol o Gymru?